



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 1354 (Cy.102)

2005 No. 1354 (W.102)

**LANDLORD A THENANT,
CYMRU**

**LANDLORD AND TENANT,
WALES**

Rheoliadau Tai Lesddaliad
(Hysbysiad o Warchodaeth
Yswiriant) (Cymru) 2005

The Leasehold Houses (Notice of
Insurance Cover) (Wales)
Regulations 2005

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Os bydd les hir ar dŷ yn ei gwneud yn ofynnol i'r tenant yswirio'r tŷ gydag yswiriwr a enwebwyd neu a gymeradwywyd gan y landlord, caiff tenant osgoi'r gofyniad hwnnw os bydd darpariaethau adran 164(2)(a) i (d) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 sy'n ymwneud â'r yswiriwr, y buddiannau a'r risgiau a warchodir, a swm y warchodaeth, wedi'u bodloni a bod y tenant yn rhoi hysbysiad o warchodaeth i'r landlord o fewn y cyfnod a bennir yn yr adran honno. Rhaid i hysbysiad o warchodaeth bennu enw'r yswiriwr, y risgiau a warchodir gan y polisi, swm a chyfnod y warchodaeth ac unrhyw wybodaeth bellach y gellir bod wedi'i rhagnodi.

Where a long lease of a house requires the tenant to insure it with an insurer nominated or approved by the landlord, a tenant may avoid that requirement if the provisions of section 164(2)(a) to (d) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002 relating to the insurer, the interests and risks covered and the amount of the cover, are satisfied and the tenant gives a notice of cover to the landlord within the period specified in that section. A notice of cover must specify the name of the insurer, the risks covered by the policy, the amount and period of the cover and such further information as may be prescribed.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi gwybodaeth bellach sydd i'w chynnwys mewn hysbysiad o warchodaeth. Mae'r wybodaeth honno fel a ganlyn:

These Regulations prescribe the further information that is to be included in a notice of cover. That information is:

- (a) cyfeiriad y tŷ sy'n cael ei yswirio o dan y polisi;
- (b) swyddfa gofrestredig yr yswiriwr neu, os nad oes swyddfa gofrestredig gan yr yswiriwr, ei brif swyddfa;
- (c) rhif y polisi;
- (ch) pa mor aml y mae premiymau'n daladwy o dan y polisi;
- (d) swm unrhyw dâl ychwanegol sy'n daladwy gan y tenant o dan y polisi;

- (a) the address of the house insured under the policy;
- (b) the registered office of the insurer or, if the insurer does not have a registered office, its head office;
- (c) the number of the policy;
- (d) the frequency with which premiums are payable under the policy;
- (e) the amount of any excess payable by the tenant under the policy;

- (dd) os bydd tâl ychwanegol yn daladwy, p'un a yw'n daladwy o ran pob cais a wneir o dan y polisi neu mewn amgylchiadau penodol yn unig ac, yn yr achos olaf hwn, ddisgrifiad byr o'r amgylchiadau hynny;
- (e) p'un a yw'r polisi wedi'i adnewyddu ai peidio ac, os cafodd ei adnewyddu, y dyddiad y gwnaed hynny ddiwethaf;
- (f) os na chafodd y polisi ei adnewyddu, y dyddiad y daeth yn effeithiol;
- (ff) datganiad bod y tenant wedi'i fodloni bod y polisi'n gwarchod buddiannau tenantiaid; a
- (g) datganiad nad oes gan y tenant reswm dros gredu nad yw'r polisi'n gwarchod buddiannau'r landlord.

Rhaid i'r hysbysiad fod ar y ffurf a geir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau neu ar ffurf sylweddol debyg ei heffaith.

- (f) where an excess is payable, whether it is payable in respect of every claim made under the policy or only in particular circumstances and, if the latter, a brief description of those circumstances;
- (g) whether the policy has been renewed and, if so, the date on which it was last renewed;
- (h) if the policy has not been renewed, the date on which it took effect;
- (i) a statement that the tenant is satisfied that the policy covers the tenants interests; and
- (j) a statement that the tenant has no reason to believe that the policy does not cover the interests of the landlord.

The notice must be in the form set out in the Schedule to the Regulations or a form substantially to the same effect.

2005 Rhif 1354 (Cy.102)**2005 No. 1354 (W.102)****LANDLORD A THENANT,
CYMRU****LANDLORD AND TENANT,
WALES****Rheoliadau Tai Lesddaliad
(Hysbysiad o Warchodaeth
Yswiriant) (Cymru) 2005****The Leasehold Houses (Notice of
Insurance Cover) (Wales)
Regulations 2005***Wedi'u gwneud**17 Mai 2005**Made**17 May 2005**Yn dod i rym**31 Mai 2005**Coming into force**31 May 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 164(5)(d) a (6)(a) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002(1), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by section 164(5)(d) and (6)(a) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002(1), hereby makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwys**Title, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tai Lesddaliad (Hysbysiad o Warchodaeth Yswiriant) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Mai 2005.

1.-(1) The title of these Regulations is the Leasehold Houses (Notice of Insurance Cover) (Wales) Regulations 2005 and come into force on 31 May 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran tai(2) yng Nghymru'n unig.

(2) These Regulations apply in respect of houses(2) in Wales only.

Cynnwys ychwanegol hysbysiad o warchodaeth**Additional content of notice of cover**

2. Rhaid i hysbysiad o warchodaeth(3) bennu (Yn ychwanegol at y manylion y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) i (c) o is-adran (5) o adran 164 (Yswiriant nad yw gydag yswirwyr y landlord) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002) -

2. A notice of cover(3) must specify (In addition to the particulars referred to in paragraphs (a) to (c) of subsection (5) of section 164 (Insurance otherwise than with the landlord's insurer) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002) -

(a) cyfeiriad y tŷ sy'n cael ei yswirio o dan y polisi;

(a) the address of the house insured under the policy;

(1) 2002 p.15. *Gweler* y diffiniadau o "prescribed" yn adran 164(10) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002. Yn rhinwedd adran 179(1) o'r Ddeddf honno, Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r "the appropriate national authority" o ran Cymru. (Mae'r pwerau a roddir gan adran 164(5)(d) a (6)(a) o'r Ddeddf honno'n arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd y diffiniad o "prescribed" ac adran 179(1).)

(1) 2002 c.15. *See* the definition of "prescribed" in section 164(10) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002. By virtue of section 179(1) of that Act, the National Assembly for Wales is "the appropriate national authority" as respects Wales. (The powers conferred by section 164(5)(d) and (6)(a) of that Act are exercisable, as respects Wales, by the National Assembly for Wales by virtue of the definition of "prescribed" and section 179(1).)

(2) Yn rhinwedd adrannau 164(10) a 179(2) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002, yr un ystyr sydd i "house" yn adran 164 ag sydd iddo at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad 1967 (p.88). Yn y Ddeddf honno yn adran 2 y ceir y diffiniad o "house".

(2) By virtue of sections 164(10) and 179(2) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002, "house" has the same meaning in section 164 as for the purposes of Part 1 of the Leasehold Reform Act 1967 (c.88). The definition of "house" in that Act is to be found in section 2.

(3) *Gweler* adran 164(3) o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(3) *See* section 164(3) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

- (b) swyddfa gofrestrdedig yr yswiriwr awdurdodedig⁽¹⁾ neu, os nad oes gan yr yswiriwr awdurdodedig swyddfa gofrestrdedig, ei brif swyddfa;
- (c) rhif y polisi;
- (ch) pa mor aml y mae premiymau'n daladwy o dan y polisi;
- (d) swm unrhyw dâl ychwanegol sy'n daladwy gan y tenant o dan y polisi;
- (dd) os bydd tâl ychwanegol yn daladwy, p'un a yw'n daladwy o ran pob cais a wneir o dan y polisi neu mewn amgylchiadau penodol yn unig ac, yn yr achos olaf hwn, ddisgrifiad byr o'r amgylchiadau hynny;
- (e) p'un a yw'r polisi wedi'i adnewyddu ai peidio ac, os cafodd ei adnewyddu, y dyddiad y gwnaed hynny ddiwethaf;
- (f) os na chafodd y polisi ei adnewyddu, y dyddiad y daeth yn effeithiol;
- (ff) bod y tenant wedi'i fodloni bod y polisi'n gwarchod ei fuddiannau; a
- (g) nad oes gan y tenant unrhyw reswm dros gredu nad yw'r polisi'n gwarchod buddiannau'r landlord.

- (b) the registered office of the authorised insurer⁽¹⁾ or, if the authorised insurer has no registered office, its head office;
- (c) the number of the policy;
- (d) the frequency with which premiums are payable under the policy;
- (e) the amount of any excess payable by the tenant under the policy;
- (f) where an excess is payable, whether it is payable in respect of every claim made under the policy or only in particular circumstances and, if the latter, a brief description of those circumstances;
- (g) whether the policy has been renewed and, if so, the date on which it was last renewed;
- (h) if the policy has not been renewed, the date on which it took effect;
- (i) that the tenant is satisfied that the policy covers the tenant's interests; and
- (j) that the tenant has no reason to believe that the policy does not cover the interests of the landlord.

Ffurf ar hysbysiad o warchodaeth

3. Rhaid i hysbysiad o warchodaeth fod ar y ffurf a geir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn, neu ar ffurf sylweddol debyg ei heffaith.

Form of notice of cover

3. A notice of cover must be in the form set out in the Schedule to these Regulations, or a form substantially to the same effect.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998⁽²⁾

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998⁽²⁾

17 Mai 2005

17 May 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

⁽¹⁾ *Gweler* y diffiniad o "authorised insurer" yn adran 164(10) o Ddeddf Cyfundaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

⁽²⁾ 1998 p.38.

⁽¹⁾ *See* the definition of "authorised insurer" in section 164(10) of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

⁽²⁾ 1998 c.38.

YR ATODLEN

Rheoliad 3

SCHEDULE

Regulation 3

FFURF AR HYSBYSIAD O WARCHODAETH

DEDDF CYFUNDALIAD A DIWYGIO CYFRAITH LESDDALIAD 2002

FORM OF NOTICE OF COVER

COMMONHOLD AND LEASEHOLD REFORM ACT 2002

Hysbysiad o Warchodaeth

Notice of Cover

I:

To:

(rhowch enw a chyfeiriad y landlord gan gynnwys ei god post)

(insert name and address of the landlord including postcode)

1

Fi yw

I am

Ni yw

We are

*(ticiwch y blwch priodol)
tenant(iaid) y tŷ yn:*

*(tick the appropriate box)
the tenant(s) of the house at:*

(mewnosoder y cyfeiriad gan gynnwys y cod post)

(insert address including post code)

Mae'r tŷ wedi'i yswirio o dan bolisi yswiriant a ddyroddwyd gan:

2

The house is insured under an insurance policy issued by:

*(mewnosoder enw'r yswiriwr a'i swyddfa gofrestredig neu, os nad oes gan yr yswiriwr swyddfa gofrestredig, ei brif swyddfa)
sy'n yswiriwr awdurdodedig o fewn ystyr adran 164 o Ddeddf Cyfundaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.*

(insert name of insurer and its registered office or, if the insurer has no registered office, its head office) who is an authorised insurer within the meaning of section 164 of the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002.

Rhif y polisi yw:

3

The policy number is:

(mewnosoder y rhif)

(insert number)

Nodir y risgiau a warchodir gan y polisi yn y tudalennau sy'n atodedig i'r hysbysiad hwn (*atoder copi o'r tudalennau perthnasol yn eich dogfennau yswiriant*) (os na ellir copïo'r dogfennau yswiriant, atoder rhestr o'r risgiau a warchodir)

4

The risks covered by the policy are set out in the pages attached to this notice (*attach a copy of the relevant pages from the insurance documents*) (if the insurance documents cannot be copied, attach a list of the risks covered)

Swm y warchodaeth (y swm a gaiff ei yswirio) yw:

5

The amount of the cover (the sum insured) is:

£

(mewnosoder y swm) ac fe'i darperir am y cyfnod sy'n cychwyn ar:

(insert amount) and it is provided for the period beginning on:

/ /

(mewnosoder y dyddiad y mae'r warchodaeth yn cychwyn -rhaid rhoi pob dyddiad ar ffurf rhifau yn hytrach na geiriau - e.e.26/12/2005 fyddai 26 Rhagfyr 2005) a sy'n gorffen ar:

(insert date on which cover begins - all dates must be completed using numbers not words - e.g. 26 December 2005 would be 26/12/2005) and ending on:

/ /

(mewnosoder y dyddiad y mae'r warchodaeth yn dod i ben - rhaid rhoi pob dyddiad ar ffurf rhifau yn hytrach na geiriau - e.e.26/12/2005 fyddai 26 Rhagfyr 2005)

(insert date on which cover ends - all dates must be completed using numbers not words - e.g. 26 December 2005 would be 26/12/2005)

Mae'r premiymau yn daladwy

6

Premiums are payable

yn flynyddol

annually

yn fisol

monthly

fel arall

other

(ticiwch y blwch priodol)

(tick the appropriate box)

Swm y tâl ychwanegol o dan y polisi yw:

7

The amount of the excess under the policy is:

£

(mewnosoder y swm) (TICIWCH Y BLWCH a chwblhewch os yw'r tâl ychwanegol yn daladwy)

(insert the sum) (TICK THIS BOX plus complete if an excess is payable)

Mae'n daladwy pa bryd bynnag y bydd yr yswiriwr yn gwneud taliad o dan y polisi hwn (Os oes tâl ychwanegol yn daladwy bob tro y bydd yr yswiriwr yn bodloni cais o dan y polisi, *TICIWCH Y BLWCH YMA*)

It is payable whenever the insurer makes a payment under this policy (*If an excess is payable every time that the insurer meets a claim under the policy, TICK THIS BOX*)

Mae'n daladwy yn yr amgylchiadau a nodir yn y tudalen(nau) atodedig (*Os dim ond mewn amgylchiadau penodol y mae tâl ychwanegol yn daladwy, TICIWCH Y BLWCH YMA a noder yr amgylchiadau ar y tudalen(nau) atodedig. Os yw symiau gwahanol yn daladwy mewn amgylchiadu gwahanol rhowch y manylion ar y tudalen(nau) atodedig.*)

It is payable in the circumstances set out in the attached page(s). (*If an excess is only payable in certain circumstances TICK THIS BOX plus specify the circumstances on an attached page(s). If different amounts are payable in different circumstances, give those details on the attached page(s).*)

Ceir isod ddwy fersiwn o baragraff 8. TICIWCH Y BLWCH sy'n cyfateb i'r UNIG FERSIWN o'r paragraff hwn sy'n ofynnol o dan yr amgylchiadau

8

Below are two versions of paragraph 8. TICK THE BOX which corresponds to the ONE VERSION of this paragraph that the circumstances require.

Mae'r polisi wedi'i adnewyddu a gwnaed hynny ddiwethaf ar:

The policy has been renewed and was last renewed on:

/ /

(*rhowch y dyddiad - rhaid rhoi pob dyddiad ar ffurf rhifau yn hytrach na geiriau - e.e. 26/12/2005 fyddai 26 Rhagfyr 2005*)

(*insert date - all dates must be completed using numbers not words - e.g. 26 December 2005 would be 26/12/2005.*)

NEU/OR

Nid yw'r polisi wedi'i adnewyddu a daeth yn effeithiol ar:

The policy has not been renewed and took effect on:

/ /

(*rhowch y dyddiad - rhaid rhoi pob dyddiad ar ffurf rhifau yn hytrach na geiriau - e.e. 26/12/2005 fyddai 26 Rhagyr 2005*)

(*insert date - all dates must be completed using numbers not words - e.g. 26 December 2005 would be 26/12/2005.*)

9

Rydw i wedi fy modloni

I am

Rydym ni wedi ein bodloni

We are

(*Ticiwch y blwch priodol*) bod y polisi yn gwarchod

(*Tick the appropriate box*) satisfied that the policy covers

fy muddiannau my interest

ein buddiannau our interest

10

Nid oes gennyf I

Nid oes gennym We

(Ticiwch y blwch priodol) reswm dros
gedu nad yw'r polisi'n gwarchod
eich buddiannau.

(Tick the appropriate box) have no reason to believe
that the policy does not cover your interests.

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W68/5/05

ON

ISBN 0-11-091134-2



9 780110 911342